# Rhaglen Cynllun Chwarae'r Haf Sir y Fflint, 2021

Mewn partneriaeth â Chynghorau Tref a Chymuned Lleol,
Urdd Gobaith Cymru a Llywodraeth Cymru.
Wedi'i lleoli yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ac yn gweithio mewn trefi a phentrefi ar hyd a lled Sir y Fflint

**NODER, BYDD CYFLOGI'R TÎM YN DDIBYNNOL AR GYFYNGIADAU A CHANLLAWIAU COVID 19 YN YSTOD GORFFENNAF AC Awst, 2021.**

**BYDD YR HOLL LEOLIADAU CYNLLUNIAU CHWARAE YN SIR Y FFLINT YN CAEL EI DARPARU YN UNOL Â DEDDFWRIAETH COVID 19**

Ni chaniateir gwyliau yn ystod cyfnod y cynllun

## AELOD O'R TÎM CHWARAE CYMUNEDOL

**(gan gynnwys swyddi 'wrth gefn)**
**Cyflog - G01 scp 1 £17,842.00 y flwyddyn/ £9.25 yr awr**

20 awr yr wythnos dros dro o 19
Gorffennaf 2021 tan 6 Awst 2021 (Llun i Gwener)
(Efallai y bydd rhai cynlluniau chwarae'n para'n hirach – Dyddiadau i'w cadarnhau)
Bydd gofyn i bob gweithiwr newydd gymryd rhan mewn wythnos lawn o hyfforddiant yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn ar 12/07/2021 (Llun i Gwener).
Yn ogystal, rhaid i'r aelodau tîm hynny nad oes ganddynt gymhwyster cymorth cyntaf gymryd rhan mewn diwrnod llawn o hyfforddiant cymorth cyntaf yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn ar 05/07/2021.
Bydd aelodau'r Tîm Chwarae Cymunedol yn cael eu talu i gymryd rhan ym mhob hyfforddiant ar y gyfradd dâl y cytunwyd arni.

Mae gofyn i Aelodau'r Tîm Chwarae Cymunedol ymuno â'r Tîm Datblygu Chwarae Sir y Fflint i gynnal sesiynau chwarae anffurfiol mewn trefi a phentrefi ledled Sir y Fflint er mwyn cynnig rhaglen cynllun chwarae'r haf y sir i bob plentyn rhwng 5 a 12 oed. Mae cyfleoedd o fewn y tîm hwn i weithio fel rhan o'n Tîm Cyfeillio, yn helpu plant a phobl ifanc rhwng 5 a 15 oed sydd ag anableddau i gymryd rhan yn eu Cynlluniau Chwarae lleol eu hunain.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn gwneud cais am y swydd hon ac am swydd Goruchwyliwr y Cynllun Chwarae, dim ond un cais fydd rhaid i chi ei gyflwyno, a'r cais ar gyfer Goruchwyliwr y Cynllun Chwarae (y swydd uwch) ddylai hwnnw fod, gan ddefnyddio cyfeirnod swydd :

Rhaid i ymgeiswyr am y ddwy swydd fod yn 18 oed neu'n hŷn. Os byddwch chi'n troi'n 18 oed yn ystod dyddiadau gweithredu'r Cynllun Chwarae, gallwch wneud cais yr un fath, ac os byddwch chi'n llwyddiannus, fe gewch chi'ch rhoi ar restr wrth gefn y cynllun ac efallai y cynigir gwaith i chi'n achlysurol ar ôl i chi droi'n ddeunaw.

**Gan y bydd y swyddi uchod yn cynnwys llawer o gyswllt gyda'r plant, bydd rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus gael gwiriad gan y Gwasanaethau Datgelu a Gwahardd.**

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 19/03/2021**
**Dyddiadau Cyfweliad Ar-lein: O: 06/04/2021 – 09/04/2021**
**I gael sgwrs anffurfiol, cysylltwch â:**

Janet A Roberts, Swyddog Datblygu Chwarae S
Rhif Ffôn 01352 704155